

# **Fframwaith cymhwysedd ar gyfer pob presgripsiynydd**



DYDDIAD CYHOEDDI: MEDI 2021

DYDDIAD EFFEITHIOL: ERBYN MEDI 2022

DYDDIAD ADOLYGU NESAF: MEDI 2026

---

# Cynnwys

Er mwyn cefnogi gweithrediad effeithiol ac amserol y fframwaith hwn, bydd gan sefydliadau, rheoleiddwyr gofal iechyd proffesiynol, sefydliadau addysg uwch ac unigolion tan fis Medi 2022 fel cyfnod trosglwyddo i weithredu'r fframwaith yn llawn yn ymarferol. Fodd bynnag, anogir sefydliadau addysg uwch a sefydliadau eraill i weithredu a gwreiddio'r fframwaith cyn gynted â phosibl.

---

CYFLWYNIAD	3
DIBEN	4
CWMPAS	5
Y FFRAMWAITH CYMHWYSEDD PRESGRIPSIYNU	6
GEIRFA	22
CYFEIRIADAU	24
CYDNABYDDIAETHAU	25

---



---

# 1

## Cyflwyniad

Meddygon yw'r grŵp mwyaf o bresgripsiynwyr o bell ffordd, sydd, ynghyd â deintyddion, yn gallu presgripsiynu ar ôl cofrestru. Yn gwmni iddynt y mae presgripsiynwyr anfeddygol annibynnol ac atodol o ystod o broffesiynau gofal iechyd eraill, sy'n gallu presgripsiynu o fewn eu cwmpas ymarfer ar ôl iddynt gwblhau rhaglen addysg gymeradwy. Mae'r estyniad hwn o gyfrifoldebau presgripsiynu i grwpiau proffesiynol eraill yn debygol o barhau lle mae'n ddiogel gwneud hynny ac mae budd amlwg i'r claf.

Er mwyn cefnogi pob presgripsiynydd i bresgripsiynu'n ddiogel ac yn effeithiol, cyhoeddwyd un fframwaith cymhwysedd presgripsiynu gan y Ganolfan Bresgripsiynu Genedlaethol/Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn 2012<sup>1</sup>. Yn seiliedig ar fframweithiau cymhwysedd 2,3,4,5,6,7 presgripsiynu cynharach penodol i broffesiwn, datblygwyd un fframwaith cymhwysedd presgripsiynu 2012<sup>1</sup> oherwydd daeth hi'n amlwg y dylai set gyffredinol o gymwyseddau fod yn sail i bresgripsiynu, waeth beth yw'r cefndir proffesiynol.

Cysylltodd NICE ac Health Education England â'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS) i reoli diweddarau'r fframwaith ar ran yr holl broffesiynau presgripsiynu yn y DU. Cytunodd y RPS i adolygu a diweddarau'r fframwaith mewn cydweithrediad â'r proffesiynau presgripsiynu eraill ac aelodau o'r cyhoedd. Cyhoeddwyd y fframwaith cymhwysedd ar gyfer pob presgripsiynydd yn gyntaf gan yr RPS ym mis Gorffennaf 2016. Wrth symud ymlaen, bydd y RPS yn parhau i gynnal a chyhoeddi'r fframwaith hwn i'r holl reoleiddwyr, cyrff proffesiynol, darparwyr addysg, proffesiynau presgripsiynu a chleifion/gofalwyr ei ddefnyddio.

I gael rhagor o wybodaeth am y broses o sut mae'r fframwaith cymhwysedd ar gyfer pob presgripsiynydd yn cael ei ddiwygio, ei ddiweddarau a'i gyhoeddi gan yr RPS, gweler gwefan RPS yma: <https://www.rpharms.com/cfap>

---

## 2 Diben

Mae'r fframwaith cymhwysedd hwn wedi'i ddatblygu a'i ddiweddarau i gefnogi presgripsiynwyr i ehangu eu gwybodaeth, eu sgiliau, eu cymhellion a'u nodweddion personol, i wella eu perfformiad yn barhaus, ac i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol. Pan fyddant yn cael eu caffael a'u cynnal, bydd y cymwyseddau presgripsiynu yn y fframwaith hwn yn helpu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i fod yn bresgripsiynwyr diogel ac effeithiol sy'n cefnogi cleifion i gael y canlyniadau gorau o'u meddyginiaethau. Mae'r fframwaith hwn wedi'i ddatblygu at ddefnydd aml-broffesiynol ac mae'n rhoi cyfle i ddod â phroffesiynau presgripsiynu ynghyd i sicrhau cysondeb yn y cymwyseddau sy'n ofynnol gan bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n cyflawni'r un rôl.

Gall grwpiau amrywiol ddefnyddio'r fframwaith hwn:

- Gellir ei ddefnyddio gan unrhyw bresgripsiynydd ar unrhyw bwynt yn eu gyrfa i danatgeu cyfrifoldeb proffesiynol ar gyfer presgripsiynu.
- Gall presgripsiynwyr ddefnyddio'r fframwaith fel offeryn hunanasesu wrth ehangu cwmpas yr ymarfer, newid cwmpas yr ymarfer neu ddychwelyd i ymarfer.
- Gall rheoleiddwyr, darparwyr addysg, sefydliadau proffesiynol a grwpiau arbenigol ei ddefnyddio i hysbysu safonau, datblygu addysg, ac i hysbysu arweiniad a chyingor.
- Gall unigolion a'u sefydliadau ei ddefnyddio i ddadansoddi'r ffordd maen nhw'n gwneud eu swyddi.
- Gall hyfforddeion presgripsiynu ddefnyddio'r fframwaith i ddangos eu bod yn cyflawni'r cymwyseddau sy'n ofynnol o'u rôl.

Gellir defnyddio'r fframwaith hwn i:

- Ddwyn proffesiynau ynghyd a chysoni addysg ar gyfer presgripsiynwyr trwy gynnig fframwaith cymhwysedd ar gyfer pob presgripsiynydd.
- Hysbysu dyluniad a darpariaeth rhaglenni addysg, er enghraifft, trwy ddilysu sesiynau addysgol (gan gynnwys rhesymeg dros angen), ac fel fframwaith i strwythuro dysgu ac asesu.
- Helpu presgripsiynwyr i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu trwy hunanasesu, arfarnu ac fel ffordd o strwythuro adborth gan gydweithwyr.
- Rhoi sylfaen i sefydliadau proffesiynol neu grwpiau arbenigol ar gyfer datblygu lefelau cymhwysedd presgripsiynu, o 'bresgripsiynydd newydd gymhwyso' i 'bresgripsiynydd profiadol'.
- Ysgogi trafodaethau ynghylch cymwyseddau presgripsiynu a chymysgedd sgiliau aml-ddisgyblaethol ar lefel sefydliadol.
- Hysbysu prosesau recriwtio sefydliadol i helpu i lunio cwestiynau a meincnodi profiad presgripsiynu ymgeiswyr.
- Hysbysu datblygiad systemau a phrosesau sefydliadol sy'n cefnogi presgripsiynu diogel ac effeithiol. Er enghraifft, fframweithiau llywodraethu clinigol lleol.
- Hysbysu datblygiad cwricwla addysg ac achrediad perthnasol rhaglenni presgripsiynu ar gyfer pob proffesiwn presgripsiynu.
- Hysbysu a sicrhau cleifion/gofalwyr ynghylch cymwyseddau presgripsiynydd diogel ac effeithiol.

---

# 3 Cwmpas

Cwmpas cyffredinol y fframwaith:

- Mae'n fframwaith generig i unrhyw bresgripsiynydd waeth beth fo'i gefndir neu leoliad proffesiynol. Felly, nid yw'n cynnwys datganiadau sy'n ymwneud â meysydd presgripsiynu arbenigol.
- Rhaid ei roi yn ei gyd-destun i adlewyrchu gwahanol feysydd ymarfer, lefelau arbenigedd a lleoliadau.
- Mae'n adlewyrchu'r cymwyseddau allweddol sydd eu hangen ar bob presgripsiynydd; ni ddylid ei ystyried yn gwricwlwm ond yn hytrach y sylfaen ar gyfer adeiladu un.
- Mae'r un mor berthnasol i bresgripsiynwyr annibynnol, nyrs-bresgripsiynydd sy'n ymarfer yn y gymuned a phresgripsiynwyr atodol, ond dylai'r olaf rhoi'r fframwaith yn ei gyd-destun i adlewyrchu'r strwythurau a osodir wrth fynd i mewn i berthynas presgripsiynu atodol.

---

# 4

## Y Fframwaith cymhwysedd presgripsiynu

Mae fframwaith cymhwysedd hwn ar gyfer pob presgripsiynydd yn amlinellu sut olwg sydd ar bresgripsiynu da. Mae ei weithredu a'i gynnal yn bwysig wrth lywio a gwella ymarfer, datblygiad, safon gofal a diogelwch (ar gyfer y presgripsiynydd a'r claf).

Anogir presgripsiynwyr i ddefnyddio eu codau ymarfer, safonau a chanllawiau proffesiynol eu hunain ochr yn ochr â'r fframwaith hwn. Mae presgripsiynwyr hefyd yn gyfrifol am ymarfer o fewn eu cwmpas ymarfer a'u cymhwysedd eu hunain, gan gynnwys dirprwyo lle fo'n briodol, ceisio cefnogaeth yn ôl yr angen a defnyddio eu gwybodaeth gaffaeledig, sgiliau a barn broffesiynol.

Mae'n bwysig adnabod hefyd bod angen i weithwyr proffesiynol gofal iechyd gymhwyso proffesiynoldeb i bob agwedd ar eu hymarfer. Mae egwyddorion proffesiynoldeb yr un peth ar draws y proffesiynau ac mae'r rhain yn ymddygiadau y dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fod yn eu harddangos bob amser, ac nid dim ond ar gyfer presgripsiynu. Mae elfennau o ymarfer proffesiynol ehangach a fydd yn effeithio ar sut y mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ymddwyn wrth bresgripsiynu. Mae'r rhain yn cynnwys pwysigrwydd cynnal ymdriniaeth yn canolbwyntio ar y claf wrth siarad â chleifion/gofalwyr, cynnal cyfrinachedd, sgiliau cyfathrebu, arweinyddiaeth, yr angen i fyfyrion, cynnal cymhwysedd a datblygiad proffesiynol parhaus, a phwysigrwydd ffurfio rhwydweithiau ar gyfer cefnogaeth a dysgu.

## STRWYTHUR Y FFRAMWAITH

Cyflwynir y cymwyseddau o fewn y fframwaith fel dau faes ac maen nhw'n disgrifio'r wybodaeth, y sgil, yr ymddygiad, y gweithgaredd, neu'r canlyniad y dylai presgripsiynwyr eu harddangos:

**Maes un – yr ymgynghoriad:** Mae'r maes hwn yn edrych ar y cymwyseddau y dylai'r presgripsiynydd eu harddangos yn ystod ymgynghoriad.

### Maes dau - llywodraethu presgripsiynu:

Canolbwyntia'r maes hwn ar y cymwyseddau y dylai'r presgripsiynydd eu harddangos o dan lywodraethu presgripsiynu.

## CYMHWYSEDD A DATGANIADAU ATEGOL:

O fewn y ddau faes hyn, mae deg cymhwysedd, fe y dangosir yn Ffigwr 1.

Mae pob un o'r cymwyseddau hyn yn cynnwys sawl datganiad ategol sy'n gysylltiedig â rôl y presgripsiynydd sy'n disgrifio'r gweithgaredd neu'r canlyniad y dylai'r presgripsiynydd ymroi i'w harddangos yn rheolaidd.

Sylwch:

- Nid yw cymwyseddau fframwaith na'r datganiadau ategol mewn unrhyw drefn benodol. Mae'r rhifau yn bennaf er mwyn cefnogi'r dibenion mapio ac nid yw'n adlewyrchu lefel bwysigrwydd y datganiad. Nid ydynt wedi'u cynllunio i gael eu defnyddio fel sgrïpt nac ar eu pennau eu hunain gan y gallant orgyffwrdd ag eraill.
- Oherwydd natur gyffredinol y fframwaith, efallai na fydd pob cymhwysedd neu ddatganiad ategol yn berthnasol i'ch ymarfer neu leoliad. Serch hynny, dylech chi fod yn gallu ystyried sut y gallech chi ddangos y datganiad ategol.

### Gwybodaeth bellach:

Mae'r adrannau gwybodaeth bellach o dan bob cymhwysedd yn cynnig gwybodaeth ac enghreifftiau (nid yw'n rhestr gynhwysfawr na phendant) i'r presgripsiynwyr, sy'n cynnig eglurder ac ystyr i'r datganiadau ategol. Yr argymhelliad ar gyfer y fframwaith hwn yw ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw adrannau gwybodaeth bellach berthnasol i gefnogi ei weithredu'n ymarferol.

Ar gyfer adnoddau ategol pellach, gweler y wefan RPS yma: <https://www.rpharms.com/cfap>

Ffigwr 1:

### Y Fframwaith cymhwysedd ar gyfer pob presgripsiynydd





**1**  
**Yr**  
**Ymgynghoriad**



## 1. ASESU'R CLAF

### DATGANIADAU YN CEFNOGI'R CYMHWYSEDD

- 1.1. Yn ymgymryd â'r ymgynghoriad mewn lleoliad priodol.
- 1.2. Yn ystyried urddas, gallu, cysyniad a chyfrinachedd y claf<sup>b</sup>.
- 1.3. Yn cyflwyno ei hun a rôl presgripsiynu i'r claf/gofalwr ac yn cadarnhau hunaniaeth y claf/gofalwr.
- 1.4. Yn asesu anghenion cyfathrebu'r claf/gofalwr ac yn addasu<sup>c</sup> ymgynghoriad yn briodol.
- 1.5. Yn dangos sgiliau cyfathrebu<sup>d</sup> ac yn adeiladu perthynas â'r claf/gofalwr.
- 1.6. Yn cymryd ac yn dogfennu hanes<sup>e</sup> meddygol, seicogymdeithasol a meddygol priodol gan gynnwys alergeddau ac anoddefiadau.
- 1.7. Yn cynnal ac yn dogfennu asesiad clinigol priodol<sup>f</sup>.
- 1.8. Yn adnabod ac yn mynd i'r afael â bregusrwydd<sup>g</sup> posibl a allai fod yn achosi i'r claf/gofalwr geisio triniaeth.
- 1.9. Yn cael mynediad ac yn dehongli holl gofnodion y claf sydd ar gael ac sy'n berthnasol i sicrhau gwybodaeth o reolaeth y claf hyd yma.
- 1.10. Yn gofyn ac yn dehongli ymchwiliadau perthnasol sy'n angenrheidiol i hysbysu opsiynau triniaeth.
- 1.11. Yn gwneud, yn cadarnhau neu'n deall, ac yn dogfennu diagnosis gweithiol neu derfynol trwy ystyried yn systematig gan ystyried amryw bosibilrwydd (diagnosis gwahaniaethol).
- 1.12. Yn deall y cyflwr (cyflyrau) sy'n cael eu trin, eu dilyniant naturiol, a sut i asesu eu difrifoldeb, eu dirywiad a'r ymateb a ddisgwylir i driniaeth.
- 1.13. Yn adolygu ymlyniad (a diffyg ymlyniad<sup>h</sup>), ac effeithlonrwydd, meddyginiaethau cyfredol.
- 1.14. Yn cyfeirio neu'n ceisio arweiniad gan aelod arall o'r tîm, arbenigwr neu ffynhonnell wybodaeth briodol yn ôl yr angen.

### GWYBODAETH BELLACH AR DDATGANIADAU ATEGOL AR GYFER CYMHWYSEDD 1

- a. Mae lleoliad priodol yn cynnwys lle, amgylchedd a chyfrwng.
- b. Yn unol â deddfwriaeth, arfer gorau, safonau rheoleiddio a gofynion cytundebol.
- c. Yn addasu ar gyfer iaith, oed, gallu, anabledd dysgu neu nam ar y synhwyrâu neu ar y corff.
- d. Sgiliau ymgynghori da yn cynnwys ymroi i wrando, defnyddio iaith corff positif, gofyn cwestiynau agored, peidio â beirniadu, ac archwilio syniadau, pryderon a disgwyliadau claf/gofalwr.
- e. Mae hanes meddygol yn cynnwys meddyginiaethau wedi'u presgripsiynu (a heb eu presgripsiynu) yn gyfredol ac yn flaenorol, brechiadau, meddyginiaethau ar-lein, meddyginiaethau dros y cownter, fitaminau, atchweniadau dietegol, cynnyrch llysiuol, rhwymediau cyflenwol, cyffuriau hamdden/ anghyfreithlon, alcohol a thybaco.

- f. Mae asesiad clinigol yn cynnwys arsylwadau, asesiadau seicogymdeithasol ac archwiliadau corfforol.
- g. Diogelu plant ac oedolion bregus (arwyddion posibl o gam-drin, esgeulustod, neu ecsploetiaeth), a chanolbwyntio ar iechyd corfforol a meddyliol y claf, yn enwedig os gallai bregusrwydd arwain atynt yn ceisio triniaeth yn ddiangen neu am y rhesymau anghywir.
- h. Gallai diffyg ymlyniad fod yn fwriadol neu'n anfwriadol.

## 2. ADNABOD OPSIYNAU TRINIAETH AR SAIL TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL AR GYFER PENDERFYNIADAU CLINIGOL

### DATGANIADAU SY'N CEFNOGI'R CYMHWYSEDD

- 2.1. Yn ystyried ymdriniaethau triniaeth an-ffarmacolegol<sup>a</sup> a ffarmacolegol.
- 2.2. Yn ystyried yr holl opsiynau triniaeth ffarmacolegol gan gynnwys optimeiddio dosau ynghyd â stopio triniaeth (amlgyffuriaeth a dad-bresgripsiynu priodol).
- 2.3. Yn asesu'r risgiau a'r buddion i'r claf o gymryd neu beidio cymryd meddyginiaeth neu driniaeth.
- 2.4. Yn cymhwyso dealltwriaeth o *pharmacokinetics* a *pharmacodynamics* meddyginiaethau, a sut y gallai'r rhain gael eu newid gan ffactorau claf unigol<sup>b</sup>.
- 2.5. Yn asesu sut y mae cydafiachedd, meddyginiaethau cyfredol, alergeddau, anoddefiadau, gwrtharwyddo ac ansawdd bywyd yn effeithio ar opsiynau rheoli.
- 2.6. Yn ystyried unrhyw ffactorau cleifion perthnasol<sup>c</sup> a'u heffaith bosibl ar ddewis a fformiwleiddio meddyginiaethau, a'r llwybr gweini.
- 2.7. Yn cael mynediad, ac yn gwerthuso'n gritigol, ac yn defnyddio ffynonellau gwybodaeth dibynadwy a dilyd.
- 2.8. Yn cadw'n gyfredol â'i faes ymarfer ei hun ac yn cymhwyso egwyddorion ymarfer ar sail tystiolaeth<sup>d</sup>.
- 2.9. Yn ystyried y persbectif ehangach gan gynnwys materion iechyd cyhoeddus yn ymwneud â meddyginiaethau a'u defnydd, a hyrwyddo iechyd.
- 2.10. Yn deall ymwrthedd gwrthficrobaidd a rolau atal haint, rheolaeth a mesurau stiwardiaeth gwrthficrobaidd.

### GWYBODAETH BELLACH AR DDATGANIADAU ATEGOL AR GYFER CYMHWYSEDD 2

- a. Mae ymdriniaethau triniaeth an-ffarmacolegol yn cynnwys dim triniaeth, presgripsiynu cymdeithasol a newidiadau lles/ffordd o fyw.
- b. Mae ffactorau claf unigol yn cynnwys geneteg, oed, nam arennol a beichiogrwydd.
- c. Mae ffactorau perthnasol i'r claf yn cynnwys gallu i lyncu, anabledd, nam ar y golwg, llesgedd, deheurwydd, crefydd, credoau ac anoddefiadau.
- d. Mae arfer ar sail tystiolaeth yn cynnwys effeithlonrwydd clinigol ac o ran cost.

### 3. YN CYFLWYNO OPSIYNAU AC YN DOD I BENDERFYNIAD AR Y CYD

#### DATGANIADAU SY'N CEFNOGI'R CYMHWYSEDD

- 3.1. Yn ymroi i gynnwys a gweithio gyda'r claf/gofalwr i wneud dewisiadau gwybodus a chytuno ar gynllun sy'n parchu dewisiadau'r claf/gofalwr<sup>a</sup>.
- 3.2. Yn ystyried ac yn parchu amrywiaeth, cefndir, gwerthoedd a chredoau personol y claf dros eu hiechyd, triniaeth a meddyginiaethau, gan gefnogi gwerthoedd cydraddoldeb a chynwysoliaeth, a datblygu cymhwysedd diwylliannol.<sup>b</sup>
- 3.3. Yn egluro'r risgiau sylweddol a'r buddion, a'r rhesymeg y tu ôl i opsiynau rheoli mewn ffordd y mae'r claf/gofalwr yn ei ddeall, fel y gallant wneud dewis gwybodus.
- 3.4. Yn asesu ymlyniad heb feirniadaeth; yn deall y rhesymau dros ddiffyg ymlyniad<sup>c</sup> a pha un yw'r ffordd orau i gefnogi'r claf/gofalwr.
- 3.5. Yn meithrin perthynas sy'n annog presgripsiynu priodol ac nid y disgwyliad y bydd presgripsiwn yn cael ei gyflenwi.
- 3.6. Yn archwilio dealltwriaeth y claf/gofalwr o'r ymgynghoriad ac yn anelu at ganlyniad boddhaol ar gyfer y claf/gofalwr a'r presgripsiynydd.

#### GWYBODAETH BELLACH AR DDATGANIADAU ATEGOL AR GYFER CYMHWYSEDD 3

- a. Ymhlith y dewisiadau fydd hawl claf/gofalwr i wrthod neu gyfyngu triniaeth.
- b. Yn unol â gofynion deddfwriaeth sy'n gymwys i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- c. Gallai diffyg ymlyniad fod yn fwriadol neu'n anfwriadol.

## 4. PREGRIPSIYNU

### DATGANIADAU SY'N CEFNOGI'R CYMHWYSEDD

- 4.1. Yn presgripsiynu meddyginiaeth neu ddyfais gydag ymwybyddiaeth gyfredol o'u gweithredoedd, dynodiadau, dos, gwrtharwyddion, rhyngweithiadau, rhybuddion ac effeithiau gwrthwynebus.
- 4.2. Yn deall y potensial ar gyfer effeithiau gwrthwynebus ac yn cymryd camau i adnabod, a'u rheoli, wrth isafu'r risg.
- 4.3. Yn deall ac yn defnyddio fframweithiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol perthnasol<sup>b</sup> at ddefnydd meddyginiaethau.
- 4.4. Yn presgripsiynu meddyginiaethau cyffredinol lle mae'n ymarferol ac yn ddiogel i'r claf, ac yn gwybod pa bryd y dylai meddyginiaethau gael eu presgripsiynu gan gynnyrch â brand.
- 4.5. Yn cwblhau ac yn gwirio'n rheolaidd gyfrifiadau sy'n berthnasol i bresgripsiynu a dosio ymarferol yn gywir.
- 4.6. Yn presgripsiynu symiau priodol ac ar ysbeidiau priodol sy'n angenrheidiol<sup>c</sup> i ostwng risg o wastraff diangen.
- 4.7. Yn adnabod camddefnydd posibl o feddyginiaethau; yn gostwng risg<sup>d</sup> ac yn rheoli defnyddio prosesau priodol.
- 4.8. Yn defnyddio gwybodaeth gyfredol am argaeledd, meintiau pacedi, amodau storio, llenwyddion a chostau meddyginiaeth wedi'u presgripsiynu.
- 4.9. Yn cynhyrchu yn electronig a/neu'n ysgrifennu presgripsiynau darllenadwy, eglur a chyflawn sy'n bodloni gofynion cyfreithiol.
- 4.10. Yn defnyddio systemau<sup>e</sup> yn effeithiol sy'n angenrheidiol i bresgripsiynu meddyginiaethau.
- 4.11. Yn presgripsiynu meddyginiaethau didrwydded ac oddi ar label lle caniateir hynny'n gyfreithiol, a meddyginiaethau didrwydded dim ond os yw'n fodlon na fyddai meddyginiaeth drwyddedig amgen yn bodloni anghenion clinigol y claf.
- 4.12. Yn cadw at gamau diogelu priodol os yw meddyginiaethau yn ddidrwydded, oddi ar label, neu'r tu hwnt i arfer safonol.
- 4.13. Dogfennau yn gofnodion clinigol cywir, darllenadwy a chyfoes<sup>f</sup>.
- 4.14. Yn cyfathrebu gwybodaeth<sup>g</sup> yn effeithiol ac yn ddiogel i weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n ymwneud â gofal y claf, wrth rannu neu drosglwyddo cyfrifoldebau gofal a phresgripsiynu, o fewn ac ar draws yr holl leoliadau gofal.

### GWYBODAETH BELLACH AR DDATGANIADAU ATEGOL AR GYFER CYMHWYSEDD 4

- a. Mae 'meddyginiaeth' neu 'ddyfais' yn cynnwys yr holl gynnyrch (gan gynnwys cyd-bresgripsiynu angenrheidiol ar setiau trwyth, dyfeisiau, gwanedyddion a chyfryngau) y gellir eu presgripsiynu, eu cyflenwi neu'u hargymell i'w prynu.
- b. Mae fframweithiau yn cynnwys fformiwlari, llwybrau gofal, protocolau a chanllawiau proffesiynol lleol, ynghyd â chanllawiau ar sail tystiolaeth gan bwyllgorau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol perthnasol.

- c. Swm sy'n angenrheidiol ar gyfer cwrs cyflawn, hyd at adolygiad nesaf neu gyflenwad presgripsiwn.
- d. Yn isafu ar risg trwy sicrhau bod camau diogelu priodol ar waith.
- e. Systemau yn cynnwys siartiau meddyginiaeth, offer cefnogi penderfyniadau a systemau presgripsiynu electronig. Hefyd, ymwybyddiaeth ac osgoi gwallau system posibl.
- f. Mae cofnodion yn cynnwys penderfyniadau presgripsiynu, hanes, diagnosis, mynegiadau clinigol, trafodaethau, rhoi cyngor, archwiliadau, canfyddiadau, ymyraethau, cynlluniau gweithredu, creu rhwyd ddiogelwch, atgyfeiriadau, monitro a sgysiau dilynol.
- g. Gwybodaeth am gyflyrau clinigol, meddyginiaethau a'u defnydd cyfredol (lle fo angen a gyda chysyniad dilys). Sicrhau bod data preifat a phersonol yn cael ei ddiogelu a'i gyfathrebu'n ddiogel yn unol â deddfwriaeth/rheoliadau perthnasol.

## 5. DARPARU GWYBODAETH

### DATGANIADAU SY'N CEFNOGI'R CYMHWYSEDD

- 5.1. Yn asesu llythrennedd iechyd y claf/gofalwr ac yn addasu'n briodol i ddarparu gwybodaeth glir, ddealladwy a hygyrch.
- 5.2. Yn gwirio dealltwriaeth y claf/gofalwr o'r trafodaethau a gafwyd, y camau sydd eu hangen a'u hymrwymiad i'r cynllun rheoli<sup>b</sup>.
- 5.3. Yn arwain y claf/gofalwr ar sut i adnabod ffynonellau dibynadwy<sup>c</sup> o wybodaeth am eu cyflwr, meddyginiaethau a thriniaeth.
- 5.4. Yn sicrhau bod y claf/gofalwr yn gwybod beth i'w wneud os oes unrhyw bryderon am reoli eu cyflwr, os yw'r cyflwr yn dirywio neu os nad oes gwelliant o fewn cyfnod penodol.<sup>d</sup>
- 5.5. Yn annog ac yn cefnogi'r claf/gofalwr i gymryd cyfrifoldeb dros eu meddyginiaethau a hunan-reoli eu cyflwr.

### GWYBODAETH BELLACH AR DDATGANIADAU ATEGOL AR GYFER CYMHWYSEDD 5

- a. Gwybodaeth am eu rheolaeth, triniaeth, meddyginiaethau (eu diben, sut i'w defnyddio, eu storio'n ddiogel, eu gwaredu, hyd ddisgwyliedig y driniaeth, effeithiau digroeso posibl a beth i'w wneud os ydynt yn codi) monitro a sgysiau dilynol - yn ysgrifenedig ac/neu ar lafar.
- b. Cynllun rheoli yn cynnwys triniaeth, meddyginiaethau, monitro a sgysiau dilynol.
- c. Ffynonellau dibynadwy yn cynnwys taflen wybodaeth i'r claf am y feddyginiaeth.
- d. Yn cynnwys cyngor creu rhwyd ddiogelwch ar bryd a sut i geisio cymorth trwy gyfeirio ac atgyfeirio priodol.

## 6. MONITRO AC ADOLYGU

### DATGANIADAU SY'N CEFNOGI'R CYMHWYSEDD

- 6.1. Yn sefydlu ac yn cynnal cynllun ar gyfer adolygu<sup>a</sup> triniaeth y claf.
- 6.2. Yn sefydlu ac yn cynnal cynllun i fonitro<sup>b</sup> effeithiolrwydd y driniaeth ac effeithiau digroeso posibl.
- 6.3. Yn addasu'r cynllun rheoli mewn ymateb i fonitro ac adolygu parhaus o gyflwr a dewisiadau'r claf.
- 6.4. Yn adnabod ac yn adrodd ar ddigwyddiadau gwrthwynebus a amheuir i feddyginiaethau a dyfeisiau meddygol gan ddefnyddio'r systemau adrodd priodol<sup>c</sup>.

### FWYBODAETH BELLACH AR DDATGANIADAU ATEGOL AR GYFER CYMHWYSEDD 6

- a. Cynllun ar gyfer adolygu yn cynnwys creu rhwyd ddiogelwch, sgysiau dilynol priodol neu atgyfeiriad.
- b. Mae cynllunio ar gyfer monitro yn cynnwys gofynion a chyfrifoldebau monitro creu rhwyd ddiogelwch, er enghraifft, gan y presgripsiynydd, claf/gofalwr neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.
- c. Mae systemau adrodd yn cynnwys cadw at weithdrefnau llywodraethu clinigol sefydledig a chynllun Cerdyn Melyn Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA).





# Llywodraethu Presgripsiynnu

## 7. PRESGRIPSIYNU’N DDIOGEL

### DATGANIADAU SY’N CEFNOGI’R CYMHWYSEDD

- 7.1. Yn presgripsiynu o fewn cwmpas ymarfer ei hun, ac yn adnabod cyfyngiadau ei wybodaeth a’i sgiliau ei hun.
- 7.2. Yn gwybod am fathau ac achosion cyffredin o wallau meddyginiaeth a phresgripsiynu, ac yn gwybod sut i isafu eu risg.
- 7.3. Yn adnabod ac yn isafu ar risgiau posibl sy’n gysylltiedig â phresgripsiynu trwy ddulliau o bell<sup>a</sup>.
- 7.4. Yn adnabod pan nad oes prosesau presgripsiynu diogel wedi’u sefydlu ac yn gweithredu i isafu ar risgiau<sup>b</sup>.
- 7.5. Yn cadw’n gyffredol â phryderon diogelwch sy’n ymddangos yn ymwneud â phresgripsiynu.
- 7.6. Yn adrodd ar ddigwyddiadau critigol neu bu bron a digwydd, ynghyd â gwallau meddyginiaeth a phresgripsiynu gan ddefnyddio systemau adrodd priodol, wrth adolygu arfer<sup>c</sup> yn rheolaidd i’w atal rhag digwydd eto.

### GWYBODAETH BELLACH AR DDATGANIADAU ATEGOL AR GYFER CYMHWYSEDD 7

- a. Dulliau o bell yn cynnwys ffôn, e-bost, fideo neu gyfathrebu trwy drydydd parti.
- b. Mae isafu ar risgiau yn cynnwys defnyddio neu ddatblygu prosesau llywodraethu sy’n cefnogi presgripsiynu diogel, yn enwedig ym meysydd risg uchel megis trosglwyddo gwybodaeth am feddyginiaethau a phresgripsiynu meddyginiaethau rheolaidd.
- c. Mae adolygu arfer yn cynnwys archwiliadau clinigol.

## 8. PREGRIPSIYNU PROFFESIYNOL

### DATGANIADAU SY'N CEFNOGI'R CYMHWYSEDD

- 8.1. Yn sicrhau bod hyder a chymhwysedd i bresgripsiynu yn cael eu cynnal.
- 8.2. Yn derbyn cyfrifoldeb ac atebolrwydd personol dros bresgripsiynu<sup>a</sup> a phenderfyniadau clinigol, ac yn deall y goblygiadau cyfreithiol a moesegol.
- 8.3. Yn gyfarwydd ac yn gweithio o fewn fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddio<sup>b</sup> sy'n effeithio ar ymarfer presgripsiynu.
- 8.4. Yn gwneud penderfyniadau presgripsiynu ar sail anghenion cleifion ac nid ar farn personol y presgripsiynydd.
- 8.5. Yn adnabod ac yn ymateb i ffactorau<sup>c</sup> a allai ddylanwadu ar bresgripsiynu.
- 8.6. Yn gweithio o fewn codau ymddygiad y GIG, sefydliadol, rheoleiddiol a rhai eraill wrth ryngweithio â'r diwydiant fferyllol.

### GWYBODAETH BELLACH AR DDATGANIADAU ATEGOL AR GYFER CYMHWYSEDD 8

- a. Mae penderfyniadau presgripsiynu yn cynnwys wrth bresgripsiynu o dan brotocol/cytundeb gofal ar y cyd.
- b. Fframweithiau ar gyfer presgripsiynu cyffuriau a reolir, meddyginiaethau didrwydded ac oddi ar label, presgripsiynu atodol, a phresgripsiynu ar gyfer eich hun, teulu agos a ffrindiau.
- c. Mae ffactorau yn cynnwys rhyngweithio â'r diwydiant fferyllol, cyfryngau, cleifion/gofalwyr, cydweithwyr, tuedd gwybyddol, mantais ariannol, cynlluniau cymhelliant presgripsiynu, switshis a thargedau.

## 9. GWELLA YMARFER PRESGRIPSIYNU

### DATGANIADAU SY'N CEFNOGI'R CYMHWYSEDD

- 9.1. Yn gwella trwy ystyried ei ymarfer presgripsiynu ei hun ac eraill, a thrwy weithredu ar adborth a thrafodaeth.
- 9.2. Yn gweithredu ar ymarfer presgripsiynu amhriodol neu anniogel gan ddefnyddio prosesau priodol<sup>a</sup>.
- 9.3. Yn deall ac yn defnyddio offer<sup>b</sup> sydd ar gael i wella ymarfer presgripsiynu.
- 9.4. Yn cymryd cyfrifoldeb dros ei ddysg a'i ddatblygiad proffesiynol parhaus ei hun sy'n berthnasol i'r rôl bresgripsiynu.<sup>c</sup>
- 9.5. Yn defnyddio rhwydweithiau ar gyfer cefnogi a dysgu.
- 9.6. Yn annog ac yn cefnogi eraill â'u hymarfer presgripsiynu a datblygiad proffesiynol parhaus.<sup>d</sup>
- 9.7. Yn ystyried effaith presgripsiynu ar gynaliadwyedd, ynghyd â dulliau o ostwng ôl troed carbon ac effaith amgylcheddol unrhyw feddyginiaeth.<sup>e</sup>

### GWYBODAETH BELLACH AR DDATGANIADAU ATEGOL AR GYFER CYMHWYSEDD 9

- a. Mae prosesau yn cynnwys chwythu'r chwiban, arweiniad rheoleiddiol a phroffesiynol, a gweithdrefnau cyflogwr.
- b. Mae offer yn cynnwys goruchwyliaeth, arsylwi ar ymarfer a sgiliau asesu clinigol, portffolios, asesiadau gweithle ar sail cymhwysedd, holiaduron, dadansoddi data presgripsiynu, archwiliadau, trafodaethau ar sail achos, fformiwlai personol ac ymroi i geisio adborth cyfoedion a chleifion yn rheolaidd.
- c. Trwy adolygu, ystyried, adnabod bylchau, cynllunio, gweithredu, cymhwysu a thystiolaeth o ddysgu neu gymhwysedd yn barhaus.
- d. Trwy ystyried mentora, arweinyddiaeth a datblygiad gweithlu (er enghraifft, dod yn Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig).
- e. Mae dulliau ar gyfer gostwng ôl troed carbon ac effaith amgylcheddol yn cynnwys gwaredu cywir ar wastraff meddyginiaeth/dyfais/cyfarpar, cynlluniau ailgylchu, osgoi gor-bresgripsiynu a gwastraff trwy adolygiadau rheolaidd, dad-bresgripsiynu, optimeiddio dos a dyfais.

## 10. PREGRIPSIYNU FEL RHAN O DÎM

### DATGANIADAU SY'N CEFNOGI'R CYMHWYSEDD

- 10.1. Yn gweithio ar y cyd<sup>a</sup> fel rhan o dîm amlddisgyblaeth i sicrhau bod trosglwyddo a pharhad gofal (o fewn ac ar draws holl leoliadau gofal) yn cael eu datblygu ac nad ydynt yn cael eu cyfaddawdu.
- 10.2. Yn sefydlu perthnasau gyda gweithwyr proffesiynol eraill ar sail dealltwriaeth, ymddiriedaeth a pharch dros rolau eich gilydd mewn perthynas â gofal y claf.
- 10.3. Yn cytuno ar lefel briodol o gefnogaeth a goruchwyliaeth ar gyfer eu rôl fel presgripsiynydd.
- 10.4. Yn darparu cefnogaeth a chyngor<sup>b</sup> i bresgripsiynwyr eraill neu'r rheini sy'n gysylltiedig â gweini meddyginiaethau lle fo'n briodol.

### GWYBODAETH BELLACH AR DDATGANIADAU ATEGOL AR GYFER CYMHWYSEDD 10

- a. Gallai cydweithio hefyd gynnwys hysbysu'r claf/gofalwr neu bresgripsiynu o dan brotocol/cytundeb gofal ar y cyd.
- b. Gallai cyngor gynnwys unrhyw gyfarwyddyd penodol ar gyfer gweini, cyngor i'w roi i'r claf/gofalwr a monitro sy'n ofynnol yn union ar ôl gweini meddyginiaeth.

## 5

# Geirfa

**Ymlyniad:** Mae ymlyniad yn tybio cytundeb rhwng y presgripsiynydd a'r claf yn ymwneud ag argymhellion y presgripsiynydd. Diffinnir ymlyniad i feddyginiaethau fel y graddau y mae camau'r claf yn cyd-fynd â'r argymhellion y cytunwyd arnynt. Gallai diffyg ymlyniad gyfyngu ar fuddion meddyginiaethau, gan arwain at ddiffyg gwelliant neu ddirywiad mewn iechyd.<sup>8</sup>

**Stiwardiaeth Gwrthficrobaidd:** Ymdriniaeth sefydliadol neu ar draws y system gofal iechyd i hyrwyddo a monitro defnydd doeth o wrthficrobaidd i ddiogelu eu heffeithiolrwydd yn y dyfodol.<sup>9</sup>

**Gofalwr:** Person sy'n cynnig cefnogaeth a chymorth, boed hynny'n ffurfiol neu'n anffurfiol, gydag amryw weithgareddau i gleifion. Gallai hyn fod yn gefnogaeth emosïynol neu ariannol, ynghyd â chymorth ymarferol gydag ystod o dasgau. Mae *gofalwr*, yn y ddogfen hon, hefyd yn derm cyffredinol a ddefnyddir i gynnwys rhieni, gwarcheidwaid cyfreithiol, eiriolwyr neu gynrychiolwyr cleifion, gan gynnwys gofalwyr cyflogedig a di-dâl.<sup>10</sup>

**Fframwaith cymhwysedd:** Strwythur sy'n disgrifio'r cymwyseddau (gwybodaeth, sgiliau, nodweddion, rhinweddau ac ymddygiadau amlwg) sy'n ganolog i berfformiad diogel ac effeithiol mewn rôl.<sup>11</sup>

**Dad-bresgripsiynu:** Y broses o atal neu ostwng meddyginiaethau gyda'r nod o gael gwared ar amlgyffuriaeth problemus (amhriodol), ac yna monitro'r unigolyn am effeithiau andwyol anfwriadol neu waethygu'r afiechyd. Mae'n hanfodol cynnwys yr unigolyn (a'i ofalwr) yn agos mewn penderfyniadau dad-bresgripsiynu i feithrin a chynnal eu hyder yn y broses.<sup>10</sup>

### **Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig (DPP):**

Term cyffredinol a ddefnyddir yn Fframwaith cymhwysedd RPS ar gyfer ymarferwyr presgripsiynu dynodedig i ddisgrifio'r ymarferydd presgripsiynu profiadol sy'n gyfrifol am oruchwylio yn ystod cyfnod dysgu'r hyfforddai presgripsiynu anfeddygol yn ymarferol. Am wybodaeth bellach, gweler Fframwaith cymhwysedd y RPS ar gyfer ymarferwyr presgripsiynu dynodedig<sup>12</sup>.

**Presgripsiynydd annibynnol:** Gweithiwr gofal iechyd presgripsiynu sy'n gyfrifol ac yn atebol am asesu cleifion â chyflyrau heb dderbyn diagnosis neu wedi derbyn diagnosis ac am benderfyniadau am y rheolaeth glinigol sy'n ofynnol, gan gynnwys presgripsiynu.

**Risg sylweddol:** Yn ôl dyfarniad Montgomery, mae risg sylweddol yn digwydd pe bai "person rhesymol yn sefyllfa'r claf yn debygol o atodi arwyddocâd iddo, neu os yw'r meddyg yn rhesymol ymwybodol y byddai ei glaf yn debygol o atodi arwyddocâd iddo".<sup>13</sup> Mae hyn yn berthnasol i bob gweithiwr proffesiynol presgripsiynu. Mae gan bob presgripsiynydd ddyletswydd gofal i sicrhau bod eu claf yn ymwybodol o unrhyw risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig â thriniaeth arfaethedig ac o ddewisiadau amgen rhesymol.

**Presgripsiynydd anfeddygol (NMP):** Mae'r term hwn yn cwmpasu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (ac eithrio meddygon a deintyddion) sy'n gweithio o fewn eu cymhwysedd clinigol fel presgripsiynwyr annibynnol a/neu atodol neu nyrs-bresgripsiynwyr sy'n ymarfer yn y gymuned.<sup>12</sup> Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y mathau o bresgripsiynwyr anfeddygol a'r hyn y gallant ei bresgripsiynu yn y Fformiwlari Cenedlaethol Prydeinig (BNF).

**Oddi ar label:** Defnyddio cynnyrch meddyginiaethol trwyddedig y tu allan i dermau ei awdurdodiad marchnata (defnydd trwyddedig).<sup>14</sup>

**Claf:** Term cyffredinol i ymdrin â'r ystod lawn o bobl sy'n derbyn neu'n gofrestredig i dderbyn triniaeth feddygol neu ofal iechyd; mae hyn yn cynnwys plant ac oedolion ifanc, menywod beichiog, defnyddwyr gwasanaeth a chleientiaid.<sup>10</sup>

**Amlgyffuriaeth:** Yn golygu 'llawer o feddyginiaethau' ac yn aml wedi'i ddiffinio yn bresennol pan fydd claf yn cymryd pump neu'n fwy o feddyginiaethau. Nid yw amlgyffuriaeth o reidrwydd yn beth drwg; gall fod yn rhesymol ac yn ofynnol; fodd bynnag, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng amlgyffuriaeth priodol ac amhriodol. Am wybodaeth bellach, gweler canllaw Amlgyffuriaeth RPS.<sup>10</sup>

**Seicogymdeithasol:** Yn cynnwys agweddau seicolegol a chymdeithasol.<sup>15</sup>

**Cwmpas ymarfer:** Y gweithgareddau y mae gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn eu cyflawni o fewn ei rôl broffesiynol. Rhaid i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol feddu ar yr hyfforddiant, y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad gofynnol i gyflawni'r gweithgareddau hyn yn gyfreithlon, yn ddiogel ac yn effeithiol. Rhaid bod ganddyn nhw hefyd yswiriant indemnïad priodol ar gyfer eu rôl bresgripsiynu. Gall cwmpas ymarfer gael ei lywio gan safonau rheoleiddio, sefyllfa'r corff proffesiynol, arweiniad cyflogwyr, arweiniad gan sefydliadau perthnasol eraill a barn broffesiynol yr unigolyn.<sup>16</sup>

**Presgripsiynu atodol:** Partneriaeth wirfoddol rhwng meddyg neu ddeintydd a phresgripsiynydd atodol, i bresgripsiynu o fewn cynllun rheoli clinigol penodol i gleifion (CMP) gyda chytundeb y claf. Adeg ei gyhoeddi, gall niysys, bydwragedd, optometryddion, fferyllwyr, ffisiotherapyddion, podiatryddion, radiograffwyr, parafeddygon a dietegwyr ddod yn bresgripsiynydd atodol. Ar ôl cymhwyso, gallant bresgripsiynu unrhyw feddyginiaeth (gan gynnwys cyffuriau rheoledig) o fewn eu cymhwysedd clinigol, yn ôl y CMP.

**Didrwydded** (a elwir hefyd yn *arbennig*): Cynnyrch meddyginiaethol heb awdurdodiad marchnata dilys yn y DU. Gall y rhain fod yn gynhyrchion meddyginiaethol sy'n cael eu mewnforio, eu caffael neu eu cynhyrchu o dan drwydded gweithgynhyrchu arbennig y DU. Maen nhw wedi'u presgripsiynu i fodloni anghenion clinigol arbennig y claf unigol ar gyfrifoldeb personol uniongyrchol y presgripsiynydd.<sup>14</sup>

---

## 6

# Cyfeiriadau

1. Y Ganolfan Bresgripsiynu Genedlaethol (2012) A single competency framework for all prescribers. Ar gael yn: <https://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20140627111233/http://www.npc.nhs.uk/> (Cyrchwyd: 22 Chwefror 2021).
2. Y Ganolfan Bresgripsiynu Genedlaethol (2001) Maintaining Competency in Prescribing. An outline framework to help nurse prescribers. NPC, Lerpwl.
3. Y Ganolfan Bresgripsiynu Genedlaethol (2003) Maintaining Competency in Prescribing. An outline framework to help nurse supplementary prescribers. NPC, Lerpwl.
4. Y Ganolfan Bresgripsiynu Genedlaethol (2003) Maintaining Competency in Prescribing. An outline framework to help pharmacist supplementary prescribers. NPC, Lerpwl.
5. Y Ganolfan Bresgripsiynu Genedlaethol a'r Cyngor Optegol Cyffredinol (2004) Competency framework for prescribing optometrists. NPC, Lerpwl.
6. Y Ganolfan Bresgripsiynu Genedlaethol (2004) Maintaining Competency in Prescribing. An Outline Framework to help Allied Health Professional Supplementary Prescribers. NPC, Lerpwl.
7. Y Ganolfan Bresgripsiynu Genedlaethol (2006) Maintaining Competency in Prescribing. An outline framework to help pharmacist prescribers. Ail argraffiad NPC, Lerpwl.
8. NICE Medicines adherence: involving patients in decisions about prescribed medicines and supporting adherence [CG76] (Ionawr 2009). Ar gael o: <https://www.nice.org.uk/guidance/cg76/chapter/Introduction>. [Cyrchwyd: 30 Mehefin 2021].
9. Department of Health and Social Care and Public Health England (2013) Antimicrobial prescribing and stewardship competencies. Ar gael o: <https://www.gov.uk/government/publications/antimicrobial-prescribing-and-stewardship-competencies>. [Cyrchwyd: 22 Chwefror 2021].
10. Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (2019) Polypharmacy: Getting our medicines right. Ar gael o: <https://www.rpharms.com/recognition/setting-professional-standards/polypharmacy-getting-our-medicines-right>. [Cyrchwyd: 22 Chwefror 2021].
11. Whiddett S, Hollyforde, S. The Competencies Handbook. Institute of Personnel and Development, 1999.
12. Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (2019) Competency Framework for Designated Prescribing Practitioners. Ar gael o: <https://www.rpharms.com/resources/frameworks/designated-prescribing-practitioner-competency-framework>. [Cyrchwyd: 22 Chwefror 2022].
13. UK Supreme Court judgement in 'Montgomery v Lanarkshire Health Board'. Maw 2015 Ar gael o: <https://www.supremecourt.uk/cases/uksc-2013-0136.html>. [Cyrchwyd: 22 Chwefror 2021].
14. Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (2016) Prescribing Specials Guidance for the prescribers of Specials Ar gael o: <https://www.rpharms.com/resources/pharmacy-guides/specials>. [Cyrchwyd: 21 Mehefin 2021].
15. Stedman's Medical Dictionary (2016). Ar gael o: <https://online.statref.com/document/agSgx7Uq0raRoiZktrvQit?categoryType=Dictionary> [Cyrchwyd: 30 Mehefin 2021].
16. Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (2020) Information on scope of practice. Ar gael o: <https://www.hcpc-uk.org/registration/meeting-our-standards/information-on-scope-of-practice/>. [Cyrchwyd: 22 Chwefror 2021].



---

# 7

## Cydnabyddiaethau

---

### Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer adolygiad 2021

**Yr Athro Angela Alexander (cadeirydd)**

*Yr Athro Emerita, Prifysgol Reading*

**Chris Bell**

*Arbenigwr Datblygu Safonau, Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth*

**Dr Paramdeep Bilkhu MCOptom**

*Cynghorydd Clinigol a Phresgripsiynydd Annibynnol, Coleg yr Optometryddion*

**Olivia Bird**

*Rheolwr Polisi, Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal*

**Hazel Boyce**

*Arbenigwr Bôn y Benglog a Radiograffydd Adolygu Niwro, Sefydliad Canser Bryste, Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Prifysgol Bryste (hefyd yn cynrychioli Cymdeithas a Choleg Radiograffwyr)*

**Dr Rachel Bruce**

*Prif Arweinydd (Rhagnodi a Sgiliau Clinigol), Addysg GIG yr Alban*

**Kat Hall**

*Athro Cysylltiol Cyfarwyddwr Addysg Glinigol, Canolfan Addysg a Hyfforddiant Ôl-raddedig Rhyngbroffesiynol (CIPPET)*

**Peter Hawkes**

*Cynrychiolydd Ileyg*

**Parbir Jagpal**

*Cyfarwyddwr Astudiaethau Ôl-raddedig, Ysgol Fferylliaeth, Prifysgol Birmingham; Presgripsiynydd Annibynnol*

**Caroline Lecky**

*Uwch Swyddog Proffesiynol Cysylltiol, Cyngor Ymarfer ac Addysg Gogledd Iwerddon*

**Andrew Lilley**

*Rheolwr Gwasanaethau Proffesiynol Fferylliaeth, Fferylllydd Arweiniol ac Uwch Ymarferydd - Resbiradol, Gofal Cartref Ysbyty Plant Alder Hey*

**Carmel Lloyd**

*Pennaeth Addysg a Dysgu, Coleg Brenhinol y Bydwragedd*

**Dr Frances Lloyd**

*Deon Fferylliaeth Ôl-raddedig Cysylltiol, Prifysgol y Frenhines, Belfast, Gogledd Iwerddon*

**Simon Matthews**

*Prif Fferylllydd Cyswllt - Gwasanaethau Clinigol, Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbyty Coleg Kings*

**Dr Trudi McIntosh**

*Uwch Ddarlithydd mewn Ymarfer Fferylliaeth. Arweinydd Cwrs MSc, Ymarfer Fferylliaeth Uwch Prifysgol Robert Gordon gan gynnwys Presgripsiynu Annibynnol Fferyllwyr*

**Andrew Mikhail**

*Cymrawd Clinigol ac Arolygydd Arbenigol y Prif Swyddog Fferyllol, Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol*

**Eleri Mills**

*Aelod o Bwyllgor Cymdeithas Rhagnodwyr, Arweinydd Rhaglen Rhagnodi Anfeddygol, Prifysgol Glyndwr*

**Adele Mott**

*Fferylllydd Arweiniol ar gyfer Gwasanaethau GI, Ysbytai Coleg Prifysgol Llundain*

**Catherine Picton**

Awdur Fframwaith Cymhwysedd ac Ymgynghorydd  
Polisi Iechyd

**Heather Randle**

Arweinydd Proffesiynol dros Addysg, Y Coleg Nyrsio  
Brenhinol

**Debra Roberts**

Deon Cysylltiol (Fferylliaeth), Pennaeth Datblygu  
Rhaglenni ac Ymarfer Uwch, Addysg a Gwella  
Iechyd Cymru (HEIW)

**James Rodger**

Ymarferydd Cwmpas Estynedig Cyhyrysgerbydol,  
Sonograffydd Cyhyrysgerbydol

**David Rovardi**

Presgripsiynydd Annibynnol Fferylllydd a  
Pharafeddyg Cofrestredig, Coleg Parafeddygon

**Peter Saul**

Cyd-gadeirydd, Coleg Brenhinol Meddygon Teulu  
Cymru

**Debbie Sharman**

Podiatrydd Ymgynghorol - Diabetes, Arweinydd  
proffesiynol ar gyfer Darlithydd Ymweld Podiatreg  
(Prifysgol Southampton), Ymddiriedolaeth Sefydliad  
Prifysgol Gofal Iechyd Dorset

**Katherine Timms**

Pennaeth Polisi a Safonau, Y Cyngor Proffesiynau  
Iechyd a Gofal

**Wendy Thompson**

Ymarferydd deintyddol cyffredinol academaidd  
ym Mhrifysgol Manceinion, hefyd yn cynrychioli  
Cymdeithas Ddeintyddol Prydain

**Jonathan Underhill**

Cyfarwyddwr Cyswllt, Canolfan Meddyginiaethau  
a Phresgripsiynu, Y Sefydliad Cenedlaethol dros  
Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal

**Nigel Westwood**

Cynrychiolydd Ileyg

**Pip White**

Cynghorydd Proffesiynol, Cymdeithas Siartredig  
Ffisiotherapi

---

**Staff RPS****Regina Ahmed (Prif Awdur)**

Uwch Fferylllydd Arweiniad a Phresgripsiynydd  
Annibynnol

**Dr Karen Hodson**

Arweinydd Ymarfer a Pholisi - Cymru, RPS.  
Cyfarwyddwr Rhaglen, Presgripsiynu Annibynnol,  
Prifysgol Caerdydd

**Jonathan Lloyd Jones**

Arweinydd Polisi ac Ymgysylltu - Cymru, RPS

**Annamarie McGregor**

Pennaeth RPS Lleol, RPS

**Wing Tang**

Pennaeth Cefnogaeth ac Arweiniad Proffesiynol,  
RPS

**Stuart Carter**

Arweinydd Cynnwys Digidol (Cyfathrebu Allanol)

**Nick Hard**

Cynlluniwr, Planing Unit

**Lowri Schiavone**

Cyfieithydd Cymraeg

**ROYAL  
PHARMACEUTICAL  
SOCIETY**

